# Ffilmiau Ffydd

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd twf aruthrol mewn cynhyrchu ffilmiau Cristnogol Cymraeg – a bellach gwelir tua 40 o recordiadau newydd yn cael eu rhyddhau bob wythnos. Mae'r rhain i'w gweld yn rhad ac am ddim ar sianel YouTube, gyda chynnwys sy'n addas ar gyfer pob oed.

Aed ati tua dwy flynedd yn ôl i greu sianel deledu Gristnogol Gymraeg, ac erbyn hyn mae modd gwylio dros 7,000 o raglenni Cristnogol ar TCC. Mae modd gweld yr holl gynnwys drwy glicio ar adran TCC o fewn gwefan www.cristnogaeth.cymru, sef gwefan o dan ofal Cyngor Ysgolion Sul Cymru.

Mae'r sianeli gwahanol sydd ar gael yno yn cynnwys:
oedfaon cyflawn
cyfresi o bregethau
testun a darlleniadau Beiblaidd
darlleniadau Beibl William Morgan
astudiaethau Beiblaidd
gwersi ysgol Sul i Oedolion
caneuon cyfoes
emynau traddodiadol
caneuon Cristnogol i blant
adnod ac emyn
carolau i bob oed
sgwrs a chrefft i blant
gwersi ysgol Sul ar-lein
cartwnau Beiblaidd i blant
sgyrsiau i ieuenctid
sgyrsiau beibl.net i bobl ifanc
cartwnau Nadolig i blant
myfyrdodau ar eiriau emynau Cymraeg
newyddion a gwybodaeth
cynllun astudiaethau 'Ar y Ffordd'
sgyrsiau a darlithoedd
tystiolaethau
gweddi a cherddi'r gyfres *Torri Syched*
astudiaethau Cyfres y Beibl
Pobl y Beibl
myfyrdodau Ffeithiau'r Ffydd
myfyrdodau ar oleuni
cyfres myfyrio ar gariad

O fewn pob un sianel ceir dewis eang a helaeth o ffilmiau Cymraeg. Felly, ewch ati i chwilio a chwilota.
















# Sul Adferiad, 30 Hydref

cynnal

Bydd dydd Sul, 30 Hydref 2022, yn garreg filltir arall yn hanes y frwydr yn erbyn dibyniaeth ar alcohol, cyffuriau ac ymddygiadau niweidiol eraill yng Nghymru.

Unwaith eto eleni, nodwyd Sul fel Sul Adferiad i annog eglwysi nid yn unig i ystyried sefyllfa'r rhai sy'n dioddef o ddibyniaeth o ryw fath, i ddysgu mwy am eu sefyllfa, eu hangen a'r help sydd ar gael trwy ymdrechion mudiadau megis Adferiad, Cynnal, Enfys, y Stafell Fyw, a chyflenwyr eraill. Mae hefyd yn gyfle i weithredu yn ymarferol i estyn cymorth. Gall y cymorth olygu cyfraniad ariannol tuag at y gwaith i rai, tra bydd eraill yn cymryd sylw newydd o'r anogaeth sydd yn Hebreaid 13:3: 'Daliwch ati i gofio'r rheiny sy'n y carchar, gan feddwl sut brofiad fyddai hi i fod yn y carchar eich hunain!' Efallai mai carchar llythrennol sydd dan sylw awdur y llythyr at yr Hebreaid, ond ar Sul Adferiad cofiwn fod caethiwed dibyniaeth ar alcohol, cyffuriau, bwyd, rhyw, gamblo a mwy, yn garchar i gymaint o bobl heddiw.

Mae pawb ohonom, o bryd i'w gilydd ar lwybr bywyd, yn dyheu am heddwch, neu lonydd – rhag problemau, rhag y pethau sy'n ein caethiwo neu'n bygwth gwneud hynny, ac weithiau rhag pobl eraill: 'Gad i mi fod. Gad lonydd i mi.' Dyna'r mynegiant plaen o'n teimladau ar adegau felly. Ond nid yw 'heddwch' yn yr ystyr hwnnw bob tro'n bosibl – ni allwn ddianc rhag sefyllfaoedd, pethau, na phobl bob amser, ac yn wir gall fod nad dyna'r peth gorau i'w wneud beth bynnag. Ac mae pobl yn rhy aml yn dianc i leoedd nad ydyn nhw'n cynnig rhyddid yn y pen draw, ond caethiwed – megis alcohol a chyffuriau eraill, gamblo, pornograffi. A gwaith – gall cyflwr y 'gwaithoholig' fod yn gaethiwed go iawn hefyd.

Ond fe fedrwn oll weddïo am heddwch dyfnach – am dangnefedd, yr heddwch mewnol, a all fod yn eiddo i ni hyd oed yng nghanol trafferthion a dioddefaint.

Yn ein gwasanaeth eleni, felly, sydd wedi ei lunio gan Siôn Aled, byddwn yn myfyrio ar feithrin y tangnefedd gwyrthiol hwnnw yn ein bywydau ni ein hunain ac am dywys eraill i brofi'r un iachâd.

Bydd y gwasanaeth ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan: www.cynnal.wales.

Dyma unfed Sul ar ddeg Adferiad Cymru. Ar y Sul hwn, gwahoddwn Gristnogion Cymru i uno mewn gweddi dros y rhai sy'n gaeth, yn ddibynnol, gan ofyn i Dduw ein helpu ni i'w helpu nhw.

*Wynford Ellis Owen*
*Ymgynghorydd Cwnsela Arbenigol*
*CYNNAL – y gwasanaeth cwnsela i glerigion, gweinidogion yr efengyl, gweithwyr Cristnogol, a'u teuluoedd*
*E-bost: wynfordellisowen@adferiad.org.uk*